# Etholiadau Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd

Mae Comisiynwyr Heddlu a Throseddu yn atebol am sut mae trosedd yn cael ei daclo yn ardal yr heddlu.

Andy Dunbobbin yw Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru. Mae o'n gyfrifol am ddal Prif Gwnstabl a Heddlu Gogledd Cymru i gyfrif ar ei ran, a bydd yn goruchwylio sut y bydd trosedd yn cael ei daclo yng ngogledd Cymru ac yn anelu i sicrhau bod yr Heddlu yn darparu gwasanaeth da.

Dysgu mwy am y Comisiynydd (gwefan allanol)

## Etholiadau Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd – 2 Mai 2024

## Swyddog Canlyniadau Ardal Heddlu

Mae Swyddog Canlyniadau Ardal heddlu yn gyfrifol am gynnal etholiadau Comisiynwyr Heddlu a Throseddu mewn ardal benodol.

Mae Ian Bancroft, Prif Weithredwr Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, wedi'i benodi yn Swyddog Canlyniadau ar gyfer gogledd Cymru yn etholiadau Comisiynwyr Heddlu a Throseddu 2024.

Ewch i Etholiad Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd 2 Mai 2024 | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam i gael mwy o wybodaeth (gwefan allanol)

## Dyddiadau pwysig

Y dyddiad cau i gofrestru i bleidleisio yw dydd Mawrth 16 Ebrill 2024.

Cofrestru i bleidleisio (gwefan allanol)

Y dyddiad cau i wneud cais am bleidlais drwy'r post yw 5pm dydd Mercher 17 Ebrill 2024.

Cofrestru i bleidleisio drwy'r post (gwefan allanol)

Y dyddiad cau i wneud cais am bleidlais drwy ddirprwy yw 5pm dydd Mercher 24 Ebrill 2024.

Cofrestru i bleidleisio drwy ddirprwy (gwefan allanol)

## Pleidleisio

I bleidleisio mewn etholiad Comisiynydd Heddlu a Throseddu mae'n rhaid i chi fodloni’r gofynion canlynol:

- Wedi cofrestru i bleidleisio
- Yn 18 oed neu hŷn ar ddiwrnod y bleidlais
- Yn ddinesydd Prydeinig, yn ddinesydd Gwyddelig, y Gymanwlad. Yn ddinesydd yr Undeb Ewropeaidd neu’n ddinesydd tramor sydd wedi derbyn caniatâd i ddod i mewn neu aros yn y DU, neu’n unigolyn nad oes arno angen caniatâd o’r fath
- Ddim yn destun anghymhwyster cyfreithiol i bleidleisio

## Prawf Adnabod i Bleidleisio

Os ydych chi’n pleidleisio mewn gorsaf bleidleisio bydd arnoch chi angen dangos prawf adnabod gyda llun i bleidleisio yn yr etholiad. Am fwy o wybodaeth am y mathau o brofion adnabod a ellir eu defnyddio ewch i Prawf Adnabod i Bleidleisio - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy